# Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin

## "Sero Net - Beth Net?"

Mewnwelediadau ar iaith a chyfathrebu mewn prosiectau gweithredu hinsawdd cymunedol





**Adroddiad Mewnwelediad #2**

**Tachwedd 2025**


severn wye

Asedau Segur
**Camau Cynaliadwy Cymru**

Dormant Assets
**Sustainable Steps Wales**

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

# Ynglŷn â rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu ac Egin

Caiff Camau Cynaliadwy Cymru ei gyflwyno gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a'i gefnogi gan arian o'r Cynllun Asedau Segur. Mae Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin yn ddwy o bedair rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru. Maent yn cefnogi ymrwymiad Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru:

- i greu dyfodol cynaliadwy
- i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd sydd eisiau gweithredu ar newid hinsawdd.

Nod **Grantiau Egin** (2023–2030) yw helpu grwpiau cymunedol i weithredu ar newid hinsawdd a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae ariannu ar gael hyd at £15,000. Mae ar agor i grwpiau sy'n derbyn cefnogaeth gan Gamau Cynaliadwy Cymru – Gwasanaeth Mentora Egin.

Nod **Grantiau Gweithredu** (2022–2028) yw mynd i'r afael â newid hinsawdd mewn cymunedau a helpu pobl i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Dyfarnwyd arian i 14 o brosiectau, yn amrywio o £10,001 i £350,000. Gallwch ddysgu mwy am Grantiau Egin a Grantiau Gweithredu ar wefan y Gronfa.

### Ynglŷn â'r gwerthusiad

Penodwyd Asiantaeth Ynni Hafren Gwy, gyda Liz Bickerton Consulting, gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn 2022 i werthuso Camau Cynaliadwy Cymru – Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin. Nod y tîm gwerthuso yw cynhyrchu dysgu a thystiolaeth o effaith ar draws y rhaglen, gan ganolbwyntio ar sut mae'r grantiau'n ymgysylltu â phobl a grwpiau newydd mewn gweithredu ar yr hinsawdd, yn ysgogi newid ymddygiad, ac yn lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwerthusiad yn rhedeg tan 2027.

Dyma'r ail Adroddiad Mewnweledіad mewn cyfres i'w gynhyrchu yn ystod y gwerthusiad, ynghyd ag astudiaethau achos prosiect manwl ac adroddiadau blynyddol.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ... 3
2. Cwestiynau Ymchwil ... 3
3. Methodoleg ... 4
4. Astudiaethau Achos ... 5
5. Rhwystrau i Ymgysylltu ... 5
6. Goresgyn Rhwystrau ... 7
7. Ysbrydoli Eraill ... 11
8. Mewnwelediadau Allweddol ... 13
9. ATODIAD: Crynodeb o Brosiectau ... 14

# 1. Cyflwyniad

Dyma'r ail Adroddiad Mewnweledlad yn gwerthuso Camau Cynaliadwy Cymru – Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin.

Nodau'r Adroddiad Mewnweledlad:

- drwy ymchwilio'n fanwl i weithgareddau'r rhaglen, darparu cyfle i fyfyrio ar yr heriau sy'n codi o fenter newid hinsawdd dan arweiniad y gymuned
- i gasglu dysgu ac i ysbrydoli eraill, yn enwedig mudiadau cymunedol eraill (boed yn ymgeiswyr posibl i'r Gronfa ai peidio) sy'n ystyried ymgymryd â phrosiectau tebyg i'r rhai a gefnogir gan Camau Cynaliadwy Cymru.

Mae thema'r Adroddiad Mewnweledlad hwn yn adlewyrchu pryder a ddaeth i'r amlwg o adroddiadau blynyddol/interim y prosiect ynghylch y rhwystrau a grëwyd i gyfranogiad oherwydd yr iaith a ddefnyddiwyd am newid hinsawdd yn ystod eu gweithgaredd prosiect.

Adroddodd staff y prosiect fod pobl yn teimlo eu bod yn nawddoglyd, yn cael eu heithrio ac weithiau'n teimlo wedi drysu gan yr iaith a ddefnyddiwyd, gan arwain at ymddygiadau fel "rholio llygaid" ac ymddieithrio cyffredinol o weithgareddau.

Mae tair astudiaeth achos, sy'n tynnu sylw at sut mae prosiectau wedi mynd i'r afael â rhwystrau iaith, yn cyd-fynd â'r Adroddiad Mewnweledlad hwn. Crynhoir y tri phrosiect yn yr atodiad i'r Adroddiad Mewnweledlad hwn.

# 2. Cwestiynau Ymchwil

Yn yr Adroddiad Mewnweledlad hwn, fe archwilion ni'r cwestiynau ymchwil allweddol canlynol.

a. Pa rwystrau y mae'r derminoleg/iaith a ddefnyddir mewn sgyrsiau hinsawdd wedi'u creu wrth ymgysylltu â chymunedau amrywiol?
b. Pa dechnegau y mae prosiectau wedi'u defnyddio i oresgyn y rhwystrau hyn?
c. Pa lwyddiant sydd wedi'i gyflawni? Beth fu'r rhwystredigaethau?
d. A yw'r technegau a'r ymagweddau'n wahanol rhwng mathau o gymunedau, gwahanol fathau o fudiadau (cyhoeddus, preifat a/neu drydydd sector) neu wahanol leoliadau?
e. Pa ddysgu y gellir ei rannu ag eraill sy'n derbyn grantiau Camau Cynaliadwy Cymru?

# 3. Methodoleg

Fe archwilion ni'r cwestiynau ymchwil allweddol gan ddefnyddio'r dulliau canlynol.

- Dadansoddiad manwl o adroddiadau prosiect a gynhyrchwyd gan y tri phrosiect astudiaeth achos.
- Trosolwg o **adroddiadau ysgrifenedig** ar gyfer pob un o'r 10 prosiect Grant Gweithredu arall (heb fod yn astudiaethau achos) a gyflwynwyd i'r Gronfa ac unrhyw ddeunydd (gan gynnwys adroddiadau) a ddarparwyd gan y 15 Grant Egin a oedd wedi adrodd erbyn 1 Hydref 2025.
- **Ymweliadau safle i dri phrosiect astudiaeth achos (isod).** Dewiswyd tri phrosiect i lywio'r astudiaeth hon (isod). Ysgrifennwyd astudiaethau achos a'u hanfon i'r mudiadau dan sylw i'w cymeradwyo. Cyhoeddir yr astudiaethau achos hyn ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

  Dewiswyd y tri phrosiect oherwydd eu bod nhw i gyd yn tynnu sylw at y rhwystrau a achosir gan iaith wrth ymgysylltu â phoblogaethau amrywiol mewn sgyrsiau am newid hinsawdd yn eu hadroddiadau blynyddol/interim. Yn yr adroddiadau hyn, disgrifiodd pob un y dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i oresgyn y rhwystrau a grëwyd gan iaith, a rhannon nhw'r adnoddau a ddatblygwyd ganddynt. Mae'r tri phrosiect astudiaeth achos yn wahanol i'r astudiaethau achos a ddewiswyd ar gyfer Adroddiad Mewnwelediad 2024 (Ysbrydoli Pobl).

  Yn ystod yr ymweliadau fe wnaethon ni:

  - cyfweld â staff y prosiect
  - arsylwi gweithgareddau prosiect
  - siarad â chyfranogwyr y prosiect (lle bo modd).

- Nodiadau, arsylwadau a deunyddiau o **Ddigwyddiad Dysgu Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin,** a gynhaliwyd yn Y Drenewydd ar 23 Medi 2025. Roedd cynrychiolwyr o 10 prosiect Grant Gweithredu ac un prosiect Grant Egin yn y digwyddiad. Roedd y digwyddiad yn gyfle i fudiadau a ariannwyd rannu eu profiadau a'u harferion da wrth ddefnyddio iaith mewn sgyrsiau hinsawdd.

- Darllen cefndirol (gwefannau noddwyr prosiectau yn bennaf) i ddeall cyd-destun gweithredol y prosiectau a gefnogir gan Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin Camau Cynaliadwy Cymru.

# 4. Astudiaethau Achos

Llywiodd y tri phrosiect canlynol y canfyddiadau yn yr Adroddiad Mewnweledìad hwn.

- **Down to Zero**. Cymdeithas Buddiannau Cymunedol a sefydlwyd gan **Gymdeithas Tai Cynon Taf** sy'n anelu at gefnogi gweithgareddau amgylcheddol dan arweiniad y gymuned sy'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- **Un Blaned.** Prosiect gan **Ymddiriedolaeth Innovate**, mudiad sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion ychwanegol eraill.
- **Sustaining a Legacy**. Prosiect gan y **Community Impact Initiative** sy'n anelu at ymgysylltu aelodau'r gymuned leol mewn gweithredu ar yr hinsawdd trwy adfywio eiddo gwag.

Darperir crynodeb o'r prosiectau hyn yn yr atodiad.

# 5. Rhwystrau i Ymgysylltu

Tynnodd staff y prosiect sylw at amrywiaeth o rwystrau iaith a chyfathrebu a wynebon nhw wrth siarad am newid hinsawdd a'r amgylchedd gyda chyfranogwyr. Mae'r canlynol yn crynhoi'r prif bwyntiau a wnaed.

a. **Iaith anghyfarwydd.** Gall iaith anghyfarwydd gynnwys jargon neu eiriau a ddefnyddir mewn cyd-destun anghyfarwydd i bobl. Yn fuan, darganfu staff y prosiect o Ymddiriedolaeth Innovate fod angen iddynt siarad â chyfranogwyr mewn ffordd syml oherwydd nad oedd gan bron neb syniad o beth oedd 'ynni', felly siaradodd staff yn lle hynny ag unigolion am sut roeddent yn defnyddio offer ar hyn o bryd a pha newidiadau bach y gallent eu gwneud. Roedd enghreifftiau eraill o iaith anghyfarwydd a ddyfynnwyd gan staff y prosiect yn cynnwys termau fel "tarddiad lleol" neu "cynaliadwyedd".

b. **Perthnasedd**. Os yw'r iaith yn anghyfarwydd yna nid yw pobl yn cysylltu'r materion â'u bywydau eu hunain. Siaradodd staff y prosiect yn y digwyddiad dysgu am sut roeddent yn defnyddio'r gair "natur" yn hytrach nag "amgylchedd", gan fod hwn yn derm mwy perthnasol i gyfranogwyr y prosiect.

Mae'n bosib nad yw'r enghreifftiau ffordd o fyw a ddefnyddir yn briodol. Nid yw defnyddio metrigau fel nifer y milltiroedd awyr a ddefnyddir er enghraifft yn ddefnyddiol i bobl nad ydynt yn hedfan yn rheolaidd neu o gwbl. Dywedodd tiwtor Community Impact Initiative,

*"Does dim llawer o bobl yn defnyddio jetiau preifat yn yr ardal yma, felly dydy lleihau eich milltiroedd awyr ddim yn berthnasol. Mae pawb yn llenwi tegell felly dim ond llenwi'r hyn sydd ei angen arnoch chi sy'n berthnasol."*

Cyfeiriodd un aelod o staff y prosiect yn y digwyddiad dysgu at "ryfeloedd diwylliannol" i ddisgrifio'r teimlad o gael y bai am broblemau a achosir gan eraill.

Mae perthnasedd hefyd yn golygu seilio cyfathrebu ym mywydau go iawn cyfranogwyr. Mae delio â heriau o ddydd i ddydd yn anodd i lawer o gyfranogwyr. Nid yw pobl sy'n cael eu heffeithio gan gostau byw, sy'n byw bywydau prysur ac sy'n wynebu heriau bywyd eraill yn gallu blaenoriaethu pryderon hinsawdd.

c. **Dulliau cyfathrebu**. Tynnodd staff y prosiect sylw at yr angen am ddulliau cynhwysol o gyfathrebu, yn enwedig ar ffurf ysgrifenedig. Roedd llythrennedd yn broblem i rai pobl a oedd yn ymwneud â phrosiectau. Yn fuan, canfu Community Impact Initiative nad oedd sesiynau ystafell ddosbarth yn gweithio, gyda chynodiadau negyddol yr oedd llawer yn eu cysylltu â'r ysgol.

d. **Hyder.** Gall peidio â chael yr eirfa berthnasol arwain at ddiffyg hyder a allai olygu, hyd yn oed pan fydd pobl â diddordeb mewn cymryd rhan mewn sgyrsiau am newid hinsawdd, efallai na fyddant yn ymgysylltu. Gall hyn fod yn anoddach i rai grwpiau yn y gymuned nag eraill a gellir ei gysylltu â diffyg cyfle. Mae'r dyfyniad canlynol yn dangos y rhwystredigaeth.

*'Dwi'n teimlo na alla i gymryd rhan mewn trafodaethau am newid hinsawdd. Dwi ddim yn meddwl y bydd pobl yn gwrando arna i, felly a dweud y gwir, dwi ddim yn trafferthu.' - Cyfranogwr Innovate.*

e. **Cyfle.** Mae rhai pobl yn brin o'r cyfle – neu nid ydynt yn cael eu cynnig gan eraill – i gymryd rhan mewn sgyrsiau am yr hinsawdd ac felly nid ydynt yn cael eu hamlygu i ddefnyddio geiriau, ymadroddion neu gysyniadau penodol. Efallai na fydd gan rai cyfranogwyr gyfrifoldeb am eu biliau ynni na rheolaeth gyffredinol o gartrefi. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt unrhyw brofiad o'r dewisiadau i'w gwneud, er enghraifft dewis cyflenwr ynni, siopa am fwyd neu wneud dewisiadau am y cynhyrchion glanhau maen nhw'n eu prynu ar gyfer y cartref.

Dywedodd Ymddiriedolaeth Innovate y gall fod yn heriol cael mynediad at weithgareddau lle gall pobl ag anableddau dysgu ymgysylltu â sgyrsiau am yr hinsawdd. Mae gweithgareddau garddio cymunedol, er enghraifft, yn anodd cael mynediad atynt oherwydd diffyg cefnogaeth, pryder ynghylch digwyddiadau cyhoeddus cymysg, mynediad gwael o ran hygyrchedd ac anhawster deall sut i ddod o hyd i gyfleoedd a chofrestru ar eu cyfer.


f. **Iaith negyddol.** Weithiau, adroddwyd bod amharodrwydd i gymryd rhan mewn sgyrsiau am yr hinsawdd oherwydd y defnydd o iaith negyddol. Er enghraifft, adroddodd staff y prosiect yn y digwyddiad dysgu fod iaith barhaus llawn tywyllwch a digalonni yn troi pobl i ffwrdd.

# 6. Goresgyn Rhwystrau

Darparodd yr astudiaethau achos a'r digwyddiad dysgu dystiolaeth o sut roedd prosiectau wedi ceisio goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu. Rhestrir y dulliau allweddol isod.

a. **Iaith syml**

Dywedodd Ymddiriedolaeth Innovate fod “rhagor o sylw” ar yr iaith a ddefnyddir yn bwysig wrth geisio ymgysylltu â phobl mewn sgyrsiau am yr hinsawdd. Maent wedi cynhyrchu adnoddau syml i esbonio’r cysyniadau a hyrwyddo ymgysylltiad.







**b. Iaith berthnasol**

Mae prosiectau wedi defnyddio termau fel “helpu natur” yn hytrach na “chynaliadwyedd amgylcheddol” i wneud canlyniadau’r camau gweithredu’n fwy perthnasol i bobl. Pwysleisiodd staff y prosiect bwysigrwydd adnabod y gynulleidfa a chyfleu iddynt yr effeithiau cadarnhaol y gallai newidiadau ymddygiad eu cael ar eu bywydau. Mae gwneud sgyrsiau’n berthnasol i fywydau pobl a’r hyn sy’n bwysig iddyn nhw, fel gwella’r byd i’w hwyrion, wedi bod yn bwysig.

Mae Women Connect Fist yn defnyddio straeon personol i wneud negeseuon yn berthnasol ac yn rhoi pwyslais ar gyfathrebu sy'n pontio cenedlaethau fel bod negeseuon yn dod gan aelodau cyfarwydd o'r gymuned. Mae staff prosiect eraill wedi canfod bod pwy sy'n cyflwyno'r negeseuon yn hanfodol. Mae angen i'r bobl sy'n cyflwyno'r negeseuon fod yn berthnasol i'r gymuned leol; nid y rhai sydd â dealltwriaeth neu gysylltiadau lleol cyfyngedig, fel rhai academyddion neu arbenigwyr medrus iawn a all ymddangos yn ffroenuchel.

*Enghreifftiau o Adnoddau*

Mae'r prosiectau hynny sy'n canolbwyntio ar gynulleidfaoedd penodol fel pobl ag anableddau neu blant yn ymwybodol iawn o iaith a ffyrdd o gyfathrebu sy'n briodol i'w cynulleidfaoedd. Mae Trees for Tomorrow (y Grant Egin cyntaf i gael ei ddyfarnu) er enghraifft yn defnyddio adrodd straeon am fywyd coeden fel ffordd o gyfleu negeseuon hinsawdd i blant ysgol.

### c. Newid Hinsawdd Achlysurol

Datblygodd Down to Zero, gan weithio gyda Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, ffordd o weithio o'r enw "newid hinsawdd achlysurol" sy'n ymgysylltu â phobl leol drwy "sgyrsiau hinsawdd achlysurol" ac yn cefnogi newid ymddygiad.

Mae'r term wedi'i fathu o arfer gorau addysg Gymraeg/dwyieithog o ran Cymraeg achlysurol. Cymraeg achlysurol yw lle mae'r Gymraeg yn cael ei hintegreiddio a'i defnyddio'n anymwybodol/isymwybodol mewn sgyrsiau bob dydd a fyddai fel arall yn uniaith.

Mae sgyrsiau hinsawdd achlysurol yn aml yn digwydd yn ystod gweithgareddau ymarferol ac yn dechrau gyda manteision bob dydd gweithgaredd yn hytrach na chanolbwyntio ar ei rinweddau cadarnhaol o ran yr hinsawdd. Galwodd rhai o staff y prosiect yn y digwyddiad dysgu'r ymagwedd hon yn "dod o hyd i ffordd i mewn" i ddisgrifio'r ffordd y mae sgyrsiau hinsawdd achlysurol yn digwydd ar gefn gweithgareddau eraill.



*Down to Zero: Blaenoriaethu'r manteision nad ydynt yn gysylltiedig â'r hinsawdd megis llysiau gwell.*

Cyflwynwyd sgyrsiau hinsawdd drwy egluro mewn sesiynau ymarferol, "dyma pam rydyn ni'n gwneud hyn" i flaenoriaethu'r manteision nad ydynt yn gysylltiedig â'r hinsawdd yn gyntaf. Er enghraifft, "rydym yn gwneud hyn i wella'r llysiau a gynhyrchir yn ogystal â bod yn ymagwedd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd".

Mae negeseuon cadarnhaol am yr hinsawdd wedi cael eu cyflwyno'n gynnil yn ystod gweithgareddau gan gynnwys tyfu cymunedol, trwsio beiciau neu ôl-osod adeiladau.

Yn fuan iawn, darganfu Community Impact Initiative nad oedd yr ymagwedd a oedd yn seiliedig ar yr ystafell ddosbarth yn gweithio. Ni wnaeth y cyfranogwyr ymgysylltu. Y ffordd ymlaen oedd cynnwys sgyrsiau hinsawdd ochr yn ochr â'r sgiliau ymarferol "ar y gwaith".

Bu Dref Werdd yn gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg. Cawsant hyfforddiant ar sut i dynnu hen feiciau i lawr a'u hailddefnyddio fel beiciau trydan. Canolbwyntiodd y rhaglen a'r sgyrsiau ar ddatblygu sgiliau a hyfforddiant y bobl ifanc yn gyntaf, a gyfrannodd wedyn at gynaliadwyedd amgylcheddol.


**d. Ymagwedd sy'n Seiliedig ar Gryfderau**

Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn awyddus i unrhyw sgyrsiau hinsawdd ddechrau o safbwynt sy'n seiliedig ar gryfderau, h.y. yr hyn y gall pobl ei wneud neu yr hyn y maent eisoes yn ei wneud. Mae pwysleisio manteision penodol, pendant wedi gwneud unigolion yn fwy agored i drafod newid hinsawdd ac yn fwy agored i symud ymlaen i feddwl am sut y gallai effeithio ar eu cymuned, y DU, a thu hwnt.

Mae Down to Zero yn pwysleisio pwysigrwydd ymagwedd gynyddrannol, gan adeiladu ar sgiliau presennol a newydd a ddatblygwyd drwy'r prosiect.

**e. Gemau a Heriau**

Mae rhai prosiectau wedi defnyddio cystadleuaeth gyfeillgar fel ffordd o annog ymgysylltiad ac i gyfleu negeseuon.




Mae Ymddiriedolaeth Innovate wedi datblygu'r syniad o "helwyr fampiriaid ynni" fel her i gyfranogwyr yn dilyn ymweliad â'u cartref. Mae'r her yn cynnwys nodi pa offer neu ymddygiadau sy'n sugno ynni (fel fampiriaid) o'r cartref ac annog cyfranogwyr i fynd ar drywydd ymddygiadau newydd.

Canfu Gilfach Goch fod heriau personol cyfeillgar yn ffordd effeithiol o gadw pobl yn ymgysylltu mewn sgyrsiau, er enghraifft herio pobl i gyfrif faint o wastraff bwyd a arbedwyd ganddynt.

Defnyddiodd Community Impact initiative ymarfer grŵp a oedd yn paru enwau â diffiniadau. Helpodd hyn y cyfranogwyr i ennill dealltwriaeth gydfuddiannol ac fe'i cwblhawyd fel grŵp, fel nad oedd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hynysu os nad oeddent yn gwybod.

*Her Ymddiriedolaeth Innovate i newid ymddygiad i ffwrdd o ddefnydd ynni uchel*

# 7. Ysbrydoli Eraill

Mae “Ysbrydoli Eraill” yn ganlyniad allweddol Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin. Mae’r adran hon yn ystyried sut mae staff y prosiect yn cyflawni’r canlyniad hwn mewn perthynas â helpu eraill i siarad yn fwy hygyrch am newid hinsawdd.

Tynnodd staff y prosiect sylw at enghreifftiau o sut y gwnaethon nhw ddefnyddio rhwydweithiau a digwyddiadau i hyrwyddo'r defnydd o iaith gynhwysol i eraill a chyfathrebu sgyrsiau hinsawdd yn well yn ehangach.




Gwahoddodd Down to Zero Bencampwyr Ffermydd Cymdeithasol a Gerddi Camau Gwyrdd (grwpiau tyfu cymunedol) i ddigwyddiad ar safle Down to Zero ym Mhont-y-clun, ym mis Medi 2024. Rhoddodd y digwyddiad hwn ymagwedd newid hinsawdd achlysurol ar waith trwy ymweliad â'r safle. Rhoddodd gyfle i grwpiau tyfu cymunedol drafod newid hinsawdd yng nghyd-destun dysgu am y gweithgareddau tyfu ar y safle.

Cyflwynodd Down to Zero eu cysyniad newid hinsawdd achlysurol i ddeiliaid eraill y Grantiau Gweithredu a'r Grantiau Egin a oedd yn bresennol yn y digwyddiad dysgu yn Y Drenewydd ar 23 Medi 2025. Byddwn yn monitro'r defnydd o'r cysyniad mewn adroddiadau prosiect yn y dyfodol o'r prosiectau eraill hyn.

Daw enghraifft arall o annog eraill i ddefnyddio iaith gynhwysol a hygyrch wrth siarad am newid hinsawdd gan Ymddiriedolaeth Innovate. Mae Ymddiriedolaeth Innovate, sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion ychwanegol eraill, yn defnyddio eu dysgu i weithio gyda Cynnal Cymru a'r Prosiect Llythrennedd Carbon a datblygu fersiwn hygyrch o'u Hyfforddiant Llythrennedd Carbon sefydledig. Dyma'r tro cyntaf i'r cwrs gael ei addasu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

# 8. Mewnwelediadau Allweddol

Gellir crynhoi'r pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer prosiectau eraill fel a ganlyn.

**a. Defnyddiwch iaith syml**

Iaith syml sy'n gweithio orau, wedi'i chefnogi gan adnoddau priodol i ategu negeseuon.

**b. Dechreuwch gyda'r hyn sy'n bwysig i bobl**

Mae angen i iaith a sgyrsiau ddechrau o realiti bywydau pobl, a bod yn berthnasol i'w profiadau a'u gwerthoedd.

**c. Addaswch yr iaith**

Mae angen dulliau cyfathrebu gwahanol ar wahanol grwpiau o bobl. Mae'r prosiectau hynny sy'n gweithio gyda phlant, er enghraifft, yn defnyddio technegau fel adrodd straeon. Nid yw un dull yn addas i bawb. Mae angen i'r prosiectau hynny sy'n gweithio gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd addasu eu cyfathrebu a'u hadnoddau yn ôl gwahanol grwpiau targed.

**d. Byddwch yn seiliedig ar gryfderau**

Cael sgyrsiau sy'n dechrau gyda chryfderau pobl (yr hyn maen nhw'n ei wneud eisoes), yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn na allant ei wneud. Dim ond wedyn, symudwch ymlaen i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau.

**e. Defnyddiwch "Sgyrsiau Hinsawdd Achlysurol"**

Mae'n well cyflwyno sgyrsiau hinsawdd yn ystod sesiynau ymarferol a chanolbwyntio ar y manteision ymarferol nad ydynt yn gysylltiedig â'r hinsawdd o newid ymddygiad, er enghraifft arbed arian neu dyfu llysiau gwell. Mae "Dyma pam rydyn ni'n gwneud hyn" yn ffordd dda i mewn.

# 9. ATODIAD: Crynodeb o Brosiectau

***Down to Zero***




Mae Down to Zero yn Gymdeithas Budd Cymunedol nid er elw a sefydlwyd gan Gymdeithas Tai Cynon Taf yn 2022 fel is-gwmni. Nod Down to Zero yw cefnogi gweithgareddau amgylcheddol dan arweiniad y gymuned sy'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Dyfarnwyd £334,999 i Gymdeithas Tai Cymunedol Cynon Taf dros 4 blynedd (Mawrth 2023 – Mawrth 2027) gan Camau Cynaliadwy Cymru. Rhagwelir y bydd cyfanswm cost y prosiect yn £699,833, gyda'r arian cyfatebol yn dod gan y Gymdeithas Tai ac o ffynonellau eraill.

Nod Down to Zero oedd ymgysylltu cymunedau lleol a dinasyddion yn yr agenda newid hinsawdd. Nodau'r prosiect yw lleihau, osgoi a storio carbon trwy weithio gyda phobl leol ar dir ac yna rhannu'r dysgu mor bell ac mor eang â phosibl. Mae gan y prosiect 4 canlyniad allweddol.

**Canlyniad 1:** Erbyn diwedd pob blwyddyn, bod allyriadau carbon wedi'u lleihau/eu neilltuo tua 189 tunnell o gyfwerth â $CO_2$ ($CO_2e$), gan gyfanswm o dros 500 tunnell o gyfwerth â $CO_2$ dros oes y prosiect.

**Canlyniad 2:** Erbyn diwedd blwyddyn 4, bod wedi gweithio ac ymgysylltu â dros 150 o bobl o bob oed drwy weithgareddau dal carbon ar y tir, addysg newid ymddygiad a gweithdai newid hinsawdd a chyfleoedd gwirfoddoli.

**Canlyniad 3**: Rhannu dysgu yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel rhan o waith y prosiect a thrwy bartneriaethau.

**Canlyniad 4:** Erbyn diwedd blwyddyn 3/4, bod system fwyd a blodau leol wedi datblygu sy'n cyfyngu ar filltiroedd mewnforio ac yn hyrwyddo economïau cylchol gwyrdd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

## *Un Blaned: Ymddiriedolaeth Innovate*

Innovate Trust

Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn ddarparwr byw â chymorth sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth, ac anghenion ychwanegol eraill i gyflawni annibyniaeth yn y ffordd maen nhw ei eisiau.

Dechreuodd y mudiad fel prosiect gwirfoddoli myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ym 1967. Hon oedd yr elusen gyntaf yn y DU i sefydlu cartref byw â chymorth.

Dyfarnwyd £148,000.00 i Ymddiriedolaeth Innovate dros 3 blynedd (Gorffennaf 2023 – Awst 2026) gan Camau Cynaliadwy Cymru. Rhagwelir y bydd cyfanswm cost y prosiect yn £194,800.00, gyda'r arian cyfatebol yn dod o gronfeydd wrth gefn Ymddiriedolaeth Innovate.

Nod prosiect Un Blaned yw galluogi 300 o unigolion ag anableddau dysgu o bob cwr o Gymru i gymryd camau gweithredu ar yr hinsawdd a byw'n fwy cynaliadwy. Mae gan y prosiect 4 canlyniad allweddol.

**Canlyniad 1: Lleihau'r Defnydd o Ynni.**

pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn cael eu cefnogi i leihau eu defnydd o ynni a dysgu sut i fyw'n fwy cynaliadwy.

**Canlyniad 2: Economi Gylchol**

Cefnogir cyfranogwyr i leihau faint o wastraff maen nhw'n ei waredu a dysgu am Leihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu ac Adfer (y 4R yn Saesneg - (Reduce, Reuse, Recycle, Recover).

**Canlyniad 3: Trafnidiaeth Gynaliadwy**

Anogir cyfranogwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach a dewisiadau trafnidiaeth amgen fel cerdded a beicio.

**Canlyniad 4: Garddio Carbon Isel**

Mae pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn cael eu cefnogi i arddio mewn ffordd carbon isel, gan gynnal mentrau sydd â budd uniongyrchol a phrofedig ar yr hinsawdd.

## *Sustaining a Legacy: The Community Impact Initiative*

Mae cwmni buddiant cymunedol Community Impact Initiative (a elwir yn Cii) yn fudiad newid cymdeithasol nid er elw, arobryn sydd wedi ymrwymo i ddatblygiad, gwelliant a chynaliadwyedd ein cymunedau.

Eu Gweledigaeth yw "Rydym yn credu mewn dyfodol lle mae ein cymunedau'n ffynnu ac yn llwyddo."

Eu Cenhadaeth yw "Gwella ein cymunedau drwy atebion arloesol, gan ddarparu cyfleoedd i unigolion wneud cyfraniad ystyrlon i gymdeithas."

Mae prosiect Community Impact Initiative: Sustaining a Legacy yn gweithredu ar draws Cymoedd De Cymru.

Mae Sustaining a Legacy yn brosiect arloesol sy'n cefnogi aelodau'r gymuned leol i gymryd rhan mewn gweithredu dros yr hinsawdd. Drwy adfywio eiddo gwag, mae'r prosiect yn helpu gwirfoddolwyr i ddeall yn well sut y gall gweithredoedd unigol a chyfunol gael effaith amgylcheddol gadarnhaol, a'r camau rhagweithiol y gallwn eu cymryd i wella ein heffeithlonrwydd ynni.

Gan weithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid, mae Sustaining a Legacy yn helpu gwirfoddolwyr i ddeall sut i adfywio ac inswleiddio cartrefi yn effeithiol i leihau'r defnydd o ynni, gan gael effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar ein hinsawdd a'n hamgylchedd.

Mae'r prosiect yn gymwys i unrhyw un 16 oed a hŷn sydd â diddordeb mewn deall mwy am weithredu ar yr hinsawdd a pha fesurau ymarferol y gallant eu cymryd i leihau eu hôl troed carbon a gwella eu heffeithlonrwydd ynni.

Mae gan brosiect Sustaining a Legacy y canlyniadau canlynol.

**Canlyniad 1** - 60 aelwyd yn lleihau eu defnydd o ynni a'u risg o fynd i dlodi tanwydd.

**Canlyniad 2** - 60 aelod o'r gymuned yn meddu ar ddealltwriaeth gynyddol o sut i wella eu hôl troed carbon eu hunain a throsglwyddo gwersi i gyfoedion.

**Canlyniad 3** - 3 eiddo gwag mewn cyflwr gwael yn cael eu hadfer i ddefnydd mewn ffordd gynaliadwy ac effeithlon o ran ynni.

**Canlyniad 4** - 50 o fudd-ddeiliaid yn meddu ar wybodaeth am sut y gall rhoi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith yn ystod

adfywio eiddo arwain at ddyfodol mwy cynaliadwy i Gymru.